OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 965 (Cy. 248)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Offer Peryglus mewn Ysgolion) (Dileu'r Cyfyngiadau ar Ddefnydd) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Hydref 2017* |
| *Laid before the National Assembly for Wales - -* | *5 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Tachwedd 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 347(2), 544(2), 546 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac yn adrannau 203(3) a 210(1) o Ddeddf Addysg 2002(**2**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Offer Peryglus mewn Ysgolion) (Dileu'r Cyfyngiadau ar Ddefnydd) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Tachwedd 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dirymu

**2.** Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989(**3**); a

(b) Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001(**4**).

(**1**) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 546 gan baragraff 162 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) a chan O.S. 2011/1158. Diwygiwyd adran 563 gan baragraff 172 o Atodlen 30 i'r Ddeddf honno. Rhoddwyd y swyddogaethau yn adrannau 347, 544, 546 a 569 o Ddeddf Addysg 1996 i'r Ysgrifennydd Gwladol ac fe'u trosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru gan baragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) 2002 p. 32. Diwygiwyd adran 203(5) gan baragraff 13(1) a (5)(b) o Atodlen 13 i Ddeddf Addysg 2011 (p. 21). Rhoddwyd y swyddogaethau yn adran 203 o Ddeddf Addysg 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru gan baragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 1989/351 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/692 ac O.S. 2004/57. Dirymwyd y Rheoliadau hyn o ran Lloegr gan O.S. 2008/1701.

(**4**) O.S. 2001/3708 (Cy. 304).

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994**

**3.** Yn Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994(**5**) hepgorer paragraff 7.

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

3 Hydref 2017

(**5**) O.S. 1994/651. Dirymwyd y Rheoliadau hyn o ran Lloegr gan O.S. 2008/1701.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 ("Rheoliadau 1989") (rheoliad 2). Mae hyn yn dileu'r gofyniad yn Rheoliadau 1989—

(a) i ysgolion a gynhelir, ysgolion nas cynhelir a sefydliadau addysg bellach gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn defnyddio, at ddibenion hyfforddi, sylweddau ymbelydrol penodol a chyfarpar penodol ("y Gofyniad"); a

(b) i hostelau ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gael eu harolygu. Nid oes unrhyw hostelau o'r fath yng Nghymru mwyach ac felly mae'r gofyniad i arolygu yn ddiangen.

Roedd y Gofyniad hefyd yn gymwys i sefydliadau addysg uwch. Fodd bynnag, yn dilyn diddymu adran 218(1)(e), (f) a (7) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 gan Ran 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg 2002, nid yw'r Gofyniad yn gymwys mwyach i sefydliadau addysg uwch.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu'r gofyniad yn Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 i ysgolion annibynnol a gymeradwyir o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig cyn defnyddio sylweddau a chyfarpar o'r fath at ddibenion hyfforddi (rheoliad 3).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.